# 14. GWEITHREDU

## 14.1 Cyflwyniad

14.1.1 Mae rhan yma o'r Cynllun Rheoli yn cynnwys y Cynllun Gweithredu, sef rhaglen waith sy'n deillio o'r rhannau blaenorol o'r Cynllun. Yn y Cynllun Gweithredu fe nodir beth sydd am gael ei wneud ac ym mha ddull y bydd hyn yn digwydd, er enghraifft trwy baratoi neu weithredu cynllun neu strategaeth.

14.1.2 Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn nodi pa gorff neu gyfuniad o gyrff fel partneriaid fydd yn gyfrifol am weithredu ac yn cynnwys targed amser. Drwy gynnwys targed amser gellir mesur llwyddiant y Rhaglen o ran cwblhau gwaith ar amser a gwireddu'r nodau a'r amcanion.

14.1.3 Llwyddwyd i wireddu rhan helaeth o Gynllun Gweithredu y Cynllun Rheoli blaenorol. Fodd bynnag, ni fu yn bosibl i weithredu rhai prosiectau am resymau amrywiol yn cynnwys diffyg adnoddau, amgylchiadau anffafriol neu drafferthion technegol (e.e. sicrhau hawl perchnogion). Mae rhai gweithredoedd o'r Cynllun blaenorol wedi eu cynnwys yn y Cynllun diwygiedig felly ond mae nifer helaeth yn weithredoedd newydd.

## 14.2 Gwireddu'r Rhaglen Weithredu

14.2.1 Bydd gwireddu'r Rhaglen Weithredu yn ddibynnol ar gydweithrediad ac ymrwymiad i les AHNE Llŷn gan amrywiol gyrff ac asiantaethau. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau annisgwyl yn golygu na all pob agwedd o'r Rhaglen gael ei gwireddu neu fod oedi o ran cyflawni rhai gweithredoedd am wahanol resymau.

14.2.2 Un o'r anghenion pwysicaf o ran gweithredu'r Cynllun fydd cyllid ac adnoddau digonol. Bydd ymrwymiad Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru tuag at wasanaeth craidd yr AHNE yn parhau oherwydd y cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ond fe all y cyfraniadau ariannol newid. Bydd gan Adran Amgylchedd y Cyngor ran ganolog i'w chwarae mewn gwireddu a chydgordio'r Cynllun Gweithredu. Oherwydd hynny mae'n bwysig sicrhau Gwasanaeth gydag adnoddau digonol o ran staff a chyllid ar gyfer y gwaith mewn llaw. Bydd y Gwasanaeth AHNE yn chwilio a sicrhau ffynonellau ariannu ychwanegol er gwireddu rhannau o'r Rhaglen Weithredu.

14.2.3 Mae nifer o gynlluniau cymorth ariannol yn weithredol yn Llŷn a allai fod yn gymorth i gefnogi gweithgareddau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn yr ardal. Mae’n bwysig bod yn ymwybodol o’r cyfleon a grëir gan y cymorthdaliadau hyn - gallent gynnig cymorth i wella a chynnal yr amgylchedd, yr economi a chyfleusterau cymunedol.

14.2.4 Un o’r cronfeydd amlycaf sydd yn cynnig cyfleon ar gyfer gwelliannau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i’r AHNE yw’r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Sefydlwyd y Gronfa gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer cefnogi prosiectau mewn AHNE a Pharciau Cenedlaethol. Ers ei sefydlu yn 2001 mae’r Gronfa wedi cefnogi cannoedd o brosiectau yn ardaloedd gwarchodedig Cymru ac mae’n holl bwysig ei bod yn parhau ar gyfer y dyfodol.

14.2.5 Mae nifer o ffynonellau ariannol eraill all gyfrannau at wireddu rhannau o’r Cynllun Rheoli yn cynnwys y Loteri Treftadaeth, Cadw, Cynlluniau yr Undeb Ewropeaidd, Cronfa Cymunedau’r Arfordir ayb.

## 14.3 Rhaglen Weithredu

14.3.1 Ar y tudalennau sy’n dilyn gwelir y Rhaglen Weithredu gyflawn ar gyfer y Cynllun Rheoli AHNE Llŷn 2015 - 20.

# TIRLUN AC ARFORDIR

| POLISI | GWEITHREDOEDD | PARTNERIAID | AMSERLEN |
|---|---|---|---|
| **TP 1. CYNNAL A GWARCHOD SAFLEOEDD DAEAREGOL A GEOMORFFOLEGOL ALLWEDDOL YN YR AHNE A CHODI YMWYBYDDIAETH O'U PWYSIGRWYDD.** | Gweithredu a monitro Cynlluniau Rheoli SoDdGA daearegol yn yr AHNE a gerllaw. | Cyfoeth Naturiol Cymru | Parhaol |
| | Trafod y posibilrwydd o baratoi a gweithredu Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol ar gyfer ardal Llŷn. | Grŵp RIGS Gwynedd<br>Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| **TP 2. GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU FYDDAI YN AMLWG AR Y TIRLUN AC YN AMHARU AR OLYGFEYDD GAN GYNNWYS DATBLYGIADAU GER Y FFIN A FYDDAI YN AMHARU AR OLYGFEYDD I MEWN AC ALLAN O'R AHNE.** | Mabwysiadu polisïau cynllunio addas i warchod yr AHNE yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. | Cynghorau Gwynedd a Môn | 2017 |
| | Asesu ceisiadau datblygu yn ofalus yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheoli hwn a gwrthod ceisiadau fyddai yn amharu ar yr AHNE. | Gwasanaeth Cynllunio a Phwyllgor Cynllunio Gwynedd | Parhaol |
| **TP 3. GWARCHOD ARFORDIR ARBENNIG LLŶN A'R YNYSOEDD TRWY WRTHSEFYLL UNRHYW DATBLYGIADAU NEWYDD ARWYDDOCAOL.** | Mabwysiadu polisïau cynllunio addas i warchod yr AHNE yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. | Cynghorau Gwynedd a Môn. | 2017 |
| | Asesu ceisiadau datblygu yn ofalus yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheoli hwn a gwrthod ceisiadau fyddai yn amharu ar yr AHNE. | Gwasanaeth Cynllunio a Phwyllgor Cynllunio Gwynedd | Parhaol |
| **TP 4. GWARCHOD AC ADFER TERFYNAU HANESYDDOL SYDD YN CYFRANNU AT GYMERIAD A HUNANIAETH LLŶN - SEF CLODDIAU, WALIAU CERRIG A GWRYCHOEDD.** | Anfon cais i Lywodraeth Cymru i sefydlu trefn i roi gwarchodaeth i gloddiau a waliau cerrig mewn Tirluniau Dynodedig. | Tirweddau Dynodedig Cymru | 2018 |
| | Darparu hyfforddiant ar gynnal a chadw gwrychoedd, cloddiau a waliau cerrig. | Menter y Felin Uchaf<br>Coleg Glynllifon<br>Gwasanaeth AHNE | 2017-20 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TP 5. HYRWYDDO GWELLIANNAU O RAN SAFLEOEDD AC ADEILADAU BLÊR AC YMWTHIOL YN YR AHNE A GERLLAW.** | Cynnal ymchwil a chasglu gwybodaeth am safleoedd ac adeiladau blêr yn yr AHNE. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| | Gweithredu camau gorfodaeth dan Adran 215 o'r Ddeddf Cynllunio ar berchnogion safleoedd ac adeiladau blêr mewn achosion penodol. | Uned Gorfodaeth Cynllunio Gwynedd | 2017- 20 |
| **TP 6. SICRHAU FOD ADEILADAU NEWYDD AC YN GWEDDU I'R ARDAL O RAN DYLUNIAD A DEUNYDDIAU AC FOD ADDASIADAU I ADEILADAU PRESENNOL YN GWEDDU I'R GWREIDDIOL.** | Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio am adeiladau newydd ac addasiadau i adeiladau presennol yn yr AHNE. | Gwasanaeth AHNE | Parhaol |
| | Paratoi a chyhoeddi canllawiau dylunio ar gyfer AHNE Llŷn. | Gwasanaeth AHNE | 2019-20 |
| **TP 7. ANNOG Y CWMNÏAU TRYDAN A THELEGYFATHREBU I RANNU CYFARPAR A GOSOD CEBLAU O DAN Y DDAEAR MEWN MANNAU AMLWG YN YR AHNE A GERLLAW.** | Asesu llinellau trydan a ffôn ymwthiol yn yr AHNE a thrafod y posibilrwydd o danddaearu gyda chwmnïau perthnasol. | Gwasanaeth AHNE | 2017- 20 |
| | Tanddaearu gwifrau trydan a ffôn ar safleoedd penodol yn yr AHNE. | SP Manweb<br>BT | 2017-20 |
| **TP 8. GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU TYRBINAU GWYNT A FFERMYDD YNNI SOLAR FYDDAI YN CAEL EFFAITH ANDWYOL AR EDRYCHIAD A CHYMERIAD TIRLUN NEU ARFORDIR YR AHNE A'I GOSODIAD.** | Asesu ceisiadau datblygu yn ofalus yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheoli hwn a gwrthod ceisiadau fyddai yn amharu ar yr AHNE. | Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd<br>Gwasanaeth AHNE | Parhaol |
| **TP 9. GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU CARAFANAU NEWYDD AC ESTYNIADAU I SAFLEOEDD PRESENNOL MEWN LLEOLIADAU AMLWG AR DIRLUN NEU ARFORDIR YR AHNE A HYRWYDDO TIRLUNIO SAFLEOEDD PRESENNOL.** | Asesu ceisiadau datblygu yn ofalus yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheoli hwn a gwrthod ceisiadau fyddai yn amharu ar yr AHNE. | Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd<br>Gwasanaeth AHNE | Parhaol |
| | Paratoi a dosbarthu Llyfryn o Ymarfer Da ar gyfer perchnogion a gweithredwyr safleoedd carafanau fydd yn cynnwys gwybodaeth am gydymffurfio gyda amodau cynllunio a chyfleon i wella safleoedd a thirlunio. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| **TP 10. CYNNAL CYMERIAD FFYRDD GWLEDIG LLŶN TRWY WRTHSEFYLL DATBLYGIADAU NIWEIDIOL A CHYNNAL AC ADFER NODWEDDION HANESYDDOL.** | Gweithredu canllawiau o arfer da o ran cynnal cymeriad ffyrdd gwledig Llŷn. | Gwasanaeth AHNE | Parhaol |
| | Mabwysiadu a gweithredu protocol ar arwyddion ffyrdd yn yr AHNE. | Adran Amgylchedd Gwynedd | 2018 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TP 11.** **CODI YMWYBYDDIAETH AM GYMERIAD UNIGRYW LLŶN A HYRWYDDO BALCHDER YN YR ARDAL A CHEFNOGAETH TUAG AT GADWRAETH.** | Cynnwys erthyglau yn y wasg leol, Llygad Llŷn ac ar gyfryngau cymdeithasol. | Gwasanaeth AHNE | 2017-20 |
| **TP 12.** **CEFNOGI A HYRWYDDO DULLIAU O REOLI TIRLUN AC ARFORDIR FYDD YN GYMORTH I GYFYNGU AR SGIL -EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AG YMDOPI GYDA EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD.** | Cynnal gwaith ymchwil i ddulliau o reoli tirlun ac arfordir sydd yn ymateb i newid hinsawdd mesurau posibl i ymdopi â'r newidiadau hynny. | Gwasanaeth AHNE | 2019 |
| | Codi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd ac effeithiau posibl ar tirlun, yr arfordir a'r môr a dulliau o ymateb i hynny yn Llygad Llŷn a chyhoeddiadau eraill a safleoedd gwe. | Gwasanaeth AHNE<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | 2018 |

# TAWELWCH A LLYGREDD ISEL

| POLISI | GWEITHREDOEDD | PARTNERIAID | AMSERLEN |
|---|---|---|---|
| **PP 1. HYRWYDDO MENTRAU CLUDIANT CYHOEDDUS A'R DEFNYDD OHONYNT A MATHAU ERAILL O DEITHIO CYNALIADWY.** | Codi ymwybyddiaeth am gyfleon cludiant cyhoeddus a dulliau eraill o deithio cynaliadwy, yn cynnwys Rheilffordd y Cambrian a Bws Arfordir Llŷn, trwy Llygad Llŷn, safle we'r AHNE a'r cyfryngau cymdeithasol. | Gwasanaeth AHNE, Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian | Parhaol |
| **PP 2. CYNNAL A GWELLA SAFON DŴR A PHRIDD YN YR ARDAL.** | Gweithio mewn partneriaeth i wireddu rhannau perthnasol Cynllun Rheoli Basin Afon Ardal Gorllewin Cymru i gynnal, a gwella yr amgylchedd ddŵr yn yr AHNE, ac yn bwydo i mewn i'r ardal. | Uned Forwrol Gwynedd, Dŵr Cymru | 2017- 20 |
| | Cydweithio i sicrhau gwobrau Baner Las a Baner Werdd ar gyfer traethau'r ardal. | Uned Forwrol CG Dŵr Cymru | Yn flynyddol |
| | Gweithredu prosiect i leihau llygredd yn afon Daron. | Cyngor Gwynedd | 2018-19 |
| **PP 3. CYFYNGU AR LEFELAU SŴN A GOLAU NOS YN YR AHNE A GERLLAW A HYRWYDDO'R DEFNYDD O OLAU STRYD/ ALLANOL SY'N YNNI EFFEITHIOL AC ARDRAWIAD ISEL.** | Defnyddio amodau cynllunio addas i reoli lefelau sŵn a golau | Gwasanaeth Cynllunio CG | Parhaol |
| | Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael statws "Awyr Dywyll" i Lŷn a'r AHNE | Gwasanaeth AHNE | 2017-18 |
| | Paratoi, cyhoeddi a dosbarthu arweiniad ar olau ynni effeithiol ac ardrawiad isel a lleihau golau. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| **PP 4. HYRWYDDO LEFELAU GLENDID LLEOL TRWY ANNOG AILDDEFNYDDIO, AILGYLCHU, A GWAREDU SBWRIEL YN GYFRIFOL.** | Sicrhau trefniadau gwastraff ac ail-gylchu effeithiol | Cyngor Gwynedd | Parhaol |
| | Codi ymwybyddiaeth am drefniadau gwastraff ac ail-gylchu'r Awdurdod Lleol a manylion cyswllt i drafod problemau o ran gwaredu sbwriel. | Cyngor Gwynedd Gwasanaeth AHNE | Parhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynnal ymgyrch addysgu am ail-ddefnyddio ac ail-gylchu | Gwasanaeth AHNE<br>Cadwch Gymru'n Daclus | 2018 |
| | Codi ymwybyddiaeth am reolau ac erlyniadau yn achos tipio anghyfreithlon yn y wasg leol. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| **PP 5 . CODI YMWYBYDDIAETH AM EFFAITH NEGYDDOL A PHERYGLON IECHYD BAW CŴN AC ANNOG PERCHNOGION I FOD MWY CYFRIFOL.** | Cynnal ymgyrch addysgu am effeithiau negyddol baw cŵn a dirwyon posibl yn Llŷn. | Gwasanaeth AHNE<br>Trefi Taclus<br>Cadwch Gymru'n Daclus | 2018 |

# CYNEFINOEDD A BYWYD GWYLLT

| POLISI | GWEITHREDOEDD | PARTNERIAID | AMSERLEN |
|---|---|---|---|
| **BP 1. HYRWYDDO GWARCHODAETH A RHEOLAETH EFFEITHIOL O GYNEFINOEDD ALLWEDDOL AHNE LLŶN.** | Cydweithio gyda perchnogion tir i sicrhau fod Safleoedd Ewropeaidd a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar sail cynefin mewn cyflwr boddhaol. | Perchnogion tir, Tenantiaid, Cyfoeth Naturiol Cymru Undebau Amaeth | Parhaol |
| | Prosiect Morwellt Porthdinllaen – treialu dulliau ymarferol o warchod ag adfer y morwellt. | ACA Pen Llŷn a'r Sarnau Ymddiriedolaeth Genedlaethol Perchnogion Cychod | 2017-18 |
| **BP 2. GWARCHOD, RHEOLI A HYRWYDDO DEFNYDD ADDAS O DIROEDD COMIN YN LLŶN.** | Cynnal asesiad o holl diroedd comin yn yr AHNE a pharatoi cynlluniau rheoli mewn ymgynghoriad gyda perchnogion a rhai sydd gyda hawliau. | Gwasanaeth AHNE Perchnogion tir Unigolion gyda hawliau | 2018-19 |
| **BP 3. GWARCHOD, CYNNAL A GWELLA RHYWOGAETHAU BYWYD GWYLLT AHNE LLŶN, YN ARBENNIG Y RHAI A DDYNODWYD DAN DDEDDFAU EWROPEAIDD NEU YN RHAI O BWYSIGRWYDD UCHEL IAWN YN NEDDF ANCG 2006, A GWRTHWYNEBU UNRHYW DDATBLYGIADAU NIWEIDIOL.** | Cydweithio gyda pherchnogion tir i sicrhau fod Safleoedd Ewropeaidd a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar sail rhywogaethau mewn cyflwr boddhaol. | Perchnogion tir, Tenantiaid Undebau Amaeth | Parhaol |
| | Datblygu prosiect i ail-gyflwyno Siacar Goch i'r môr yng nghyffiniau Aberdaron. | ACA Pen Llŷn a'r Sarnau Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 2018-19 |
| | Datblygu prosiect i ail-gyflwyno dyfrgwn i'r ardal. | ACA Pen Llŷn a'r Sarnau | 2018-19 |
| | Dosbarth a hyrwyddo Côd Morol Gwynedd a fabwysiadwyd | ACA Pen Llŷn a'r Sarnau | Parhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **BP 4. CREU A GWELLA CYSYLLTIAD RHWNG SAFLEOEDD PWYSIG O RAN CYNEFIN A BYWYD GWYLLT.** | Gweithredu prosiectau i wella cysylltedd rhwng safleoedd natur penodol. | Uned Bioamrywiaeth Gwynedd<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | 2018-19 |
| **BP 5. ASESU EFFEITHIAU POSIBL NEWID HINSAWDD AR GYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU BYWYD GWYLLT CYNHENID YR ARDAL A MESURAU POSIB I DDYGYMOD Â HYNNY.** | Asesu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac amgylchiadau lleol a chreu rhaglen o fesurau i ymateb i newid hinsawdd. | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Gwasanaeth AHNE | 2017-19 |
| **BP 6. TRIN RHYWOGAETHAU YMLEDOL CYNHENID AG ESTRON A CHODI YMWYBYDDIAETH AMDANYNT A'R FFORDD O'U TRIN A'U GWAREDU.** | Ymchwilio a chofnodi i achosion o rywogaethau ymledol estron yn yr AHNE. | Adran Amgylchedd Gwynedd | 2017-18 |
| | Hysbysu perchnogion tir o'u cyfrifoldeb tuag at reoli rhywogaethau ymledol a darparu hyfforddiant ar ddulliau o drin gwahanol rywogaethau. | Uned Cefn Gwlad Gwynedd<br>Gwasanaeth AHNE<br>Undebau Amaeth | 2017-18 |
| | Gweithredu prosiect gwaredu ar o leiaf 3 safle penodol oddi fewn ffiniau'r AHNE yn ystod cyfnod y Cynllun. | Gwasanaeth AHNE | 2017-20 |
| | Gweithredu prosiect i gael gwared â Efwr Enfawr o ran (2.4 cilomedr) o Afon Soch. | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Tirfeddianwyr | 2017-20 |
| **BP 7. CODI YMWYBYDDIAETH A GWELLA DEALLTWRIAETH AM GYNEFINOEDD A BYWYD GWYLLT YN AHNE LLŶN A HYRWYDDO GWIRFODDOLWYR I GYMRYD RHAN MEWN PROSIECTAU RECORDIO A CHADWRAETH.** | Codi ymwybyddiaeth am fywyd gwyllt lleol trwy safleoedd gwe a Newyddlenni AHNE, ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a Chyngor Gwynedd. | Gwasanaeth AHNE<br>Uned Bioamrywiaeth Gwynedd | Parhaol |
| | Paratoi, cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i ffermwyr ar reolaeth o gynefinoedd amaethyddol megis gwrychoedd, pyllau fferm ac ymylon caeau. | Gwasanaeth AHNE<br>Uned Bioamrywiaeth Gwynedd | 2018 |
| | Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn – parhau â'r gwaith o drafod a chydweithio gyda pysgotwyr | ACA Pen Llŷn a'r Sarnau | Parhaol |
| | Datblygu a gweithredu prosiect gwylio dolffiniaid | ACA Pen Llŷn a'r Sarnau<br>Uned Bioamrywiaeth Gwynedd | 2017 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **BP 8. GWELLA YMWYBYDDIAETH AM GYFRANIAD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU MEWN DARPARU GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL A BUDDION Y GWASANAETHAU HYNNY O RAN IECHYD A LLES.** | Codi ymwybyddiaeth trwy safle we'r AHNE, Cyngor Gwynedd, ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, Llygad Llŷn a chyhoeddiadau eraill. | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Gwasanaeth AHNE | Parhaol |

# YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

| POLISI | GWEITHREDOEDD | PARTNERIAID | AMSERLEN |
|---|---|---|---|
| **HP 1. ADNABOD, COFNODI AC ASESU CYFLWR ADNODDAU HANESYDDOL YR ARDAL.** | Cadw cofnod o holl henebion ac olion archeolegol yn yr AHNE a diweddaru'r gwybodaeth fel bod angen. | Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd | Parhaol |
| | Cadw cofnod o holl Adeiladau a Strwythurau Rhestredig yn yr AHNE a diweddaru'r gwybodaeth fel bod angen. | Cadw | Parhaol |
| | Ymgymryd â gwaith ymchwil ar adeiladau diwydiannol hanesyddol yn cynnwys melinoedd gwynt, melinoedd dŵr, melinoedd gwlân, adeiladau yn ymwneud â'r diwydiant cloddio a chwarelydda. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| **HP 2. GWARCHOD A CHYNNAL NODWEDDION HANESYDDOL YN CYNNWYS OLION ARCHEOLEGOL A STRWYTHURAU AC ADEILADAU HANESYDDOL A'U GOSODIAD.** | Gwarchod olion archeolegol, adeiladau a strwythurau hanesyddol rhag datblygiadau niweidiol. | Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd | Parhaol |
| | Cynnal rhaglen o hyfforddiant ar sut i gynnal ac adfer adeiladau a strwythurau hanesyddol, cloddiau a waliau cerrig. | Menter y Felin Uchaf<br>Coleg Glynllifon<br>Gwasanaeth AHNE | 2018-20 |
| | Gweithredu ymhellach i gynnal a gwella ffynhonnau hanesyddol yn yr AHNE. | Gwasanaeth AHNE<br>Cadw Cymru'n Daclus | 2017-20 |
| **HP 3. SICRHAU FOD DATBLYGIADAU NEWYDD AC ADDASIADAU YN PARCHU AC ATGYFNERTHU CYMERIAD AC EDRYCHIAD ADEILADAU A STRWYTHURAU HANESYDDOL A HYRWYDDO YMARFER DA O RAN CYNNAL A CHADW.** | Peidio â chaniatáu ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau fyddai yn amharu ar gymeriad ac edrychiad adeiladau a strwythurau hanesyddol yn yr AHNE. | Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd | Parhaol |
| | Dosbarthu canllawiau Cadw ar gynnal, adfer a gwneud defnydd newydd o adeiladau hanesyddol a thraddodiadol i benseiri ac arolygwyr adeiladu lleol. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **HP 4**. **GWRTHSEFYLL DATBLYGIADAU FYDDAI YN AMHARU AR GYMERIAD AC EDRYCHIAD ARDALOEDD CADWRAETH A CHEFNOGI MENTRAU I WNEUD GWELLIANNAU.** | Peidio â chaniatáu ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau na fyddai yn cynnal a gwella cymeriad Ardaloedd Cadwraeth yn yr AHNE. | Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd | Parhaol |
| | Gweithredu Cynlluniau Gwella Ardaloedd Cadwraeth a baratowyd yn Burum ar ran y Gwasanaeth AHNE. | Gwasanaeth AHNE Cynghorau Cymuned/ Tref | 2017-20 |
| **HP 5. CODI YMWYBYDDIAETH A HYRWYDDO DEALLTWRIAETH O AMGYLCHEDD HANESYDDOL YR ARDAL YMYSG PERCHNOGION EIDDO, POBOL LEOL, PLANT AC YMWELWYR.** | Cynnwys gwybodaeth am amgylchedd hanesyddol Llŷn yn Llygad Llŷn ac ar safle we'r AHNE. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| | Dehongli hanes Llŷn ac arddangos creiriau amrywiol mewn canolfannau leol. | Partneriaid Ecoamgueddfa Llŷn | Parhaol |
| | Cynnal asesiad o'r posibilrwydd i ddod a rhai creiriau lleol sydd mewn amgueddfeydd yn ôl i ardal Llŷn i'w harddangos. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| **HP 6**. **HYRWYDDO GWELL MYNEDIAD AT ADNODDAU HANESYDDOL LLEOL A MWYNHAD OHONYNT.** | Gwella mynediad at nifer o nodweddion hanesyddol yn yr AHNE yn ystod cyfnod y Cynllun. | Gwasanaeth AHNE Uned Cefn Gwlad Gwynedd | 2017-20 |

# YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT

| POLISI | GWEITHREDOEDD | PARTNERIAID | AMSERLEN |
|---|---|---|---|
| **IP 1. CEFNOGI GWEITHGAREDDAU ADLONIADOL A DIWYLLIANNOL YN YR IAITH GYMRAEG.** | Hyrwyddo digwyddiadau lleol drwy Llygad Llŷn, gwefan yr AHNE a'r cyfryngau cymdeithasol. | Llanw Llŷn<br>Ecoamgueddfa Llŷn | Parhaol |
| | Cynnal cyfres o wersi cynganeddu i drigolion mewn gwahanol leoliadau lleol. | Gwasanaeth AHNE | 2017-18 |
| | Gweinyddu a hyrwyddo cronfeydd grant ar gyfer prosiectau perthnasol e.e. Cronfa'r Degwm a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy | Gwasanaeth AHNE<br>Cyngor Gwynedd<br>Arianwyr Eraill | Parhaol |
| **IP 2. HYRWYDDO DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG YMYSG BUSNESAU A SEFYDLIADAU YN LLŶN.** | Adnabod y defnydd o Gymraeg ar gynnyrch, gwasanaethau a chyfleusterau. Cysylltu ag unigolion a chwmnïau i annog labelu ac arwyddo Cymraeg neu ddwyieithog. | Gwasanaeth AHNE<br>Cyfeillion Llŷn | Parhaol |
| **IP 3. CODI YMWYBYDDIAETH AM ELFENNAU O DDIWYLLIANT ARBENNIG YR ARDAL.** | Hyrwyddo elfennau o'r diwylliant lleol drwy Llygad Llŷn, gwefan yr AHNE a'r cyfryngau cymdeithasol. | Gwasanaeth AHNE<br>Llanw Llŷn<br>Ecoamgueddfa Llŷn | Parhaol |
| **IP 4. DATHLU DIWYLLIANT A THRADDODIADAU'R ARDAL TRWY GELF, LLENYDDIAETH A BARDDONIAETH.** | Cynnal cystadleuaeth gelfyddydol/ ffotograffiaeth bob 2 flynedd yn seiliedig ar Rinweddau Llŷn. | Gwasanaeth AHNE | Parhaol |
| | Cynnal arddangosfeydd o waith artistiaid sy'n gysylltiedig â'r tirlun a nodweddion eraill lleol. | Oriel Plas Glyn y Weddw | Parhaol |
| | Cynnal Eisteddfodau yn gyda cystadlaethau canu, adrodd, llenyddiaeth ac ati drwy'r iaith Gymraeg. | Pwyllgorau Lleol<br>Enwadau crefyddol amrywiol | Parhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **IP 5. CODI YMWYBYDDIAETH AM YR IAITH GYMRAEG A'R CYFLEON I'W DYSGU.** | Darparu gwersi dysgu Cymraeg yn lleol a darparu cyfleon i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg neu sefyllfa anffurfiol . | Nant Gwrtheyrn<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Prifysgol Bangor | Parhaol |
| | Gweithredu Prosiect i gynhyrchu pecyn gwybodaeth i werthwyr tai ei gyflwyno i gwsmeriaid am ddynodiad yr AHNE a'i rhinweddau arbennig – gan gyfeirio at bwysigrwydd cadw enwau Cymraeg ar dai. | Gwasanaeth AHNE | Parhaol |
| | Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo y cyfleon i ddysgu ac ymarfer Cymraeg yn lleol trwy safle we'r AHNE a Llygad Llŷn | Gwasanaeth AHNE | Parhaol |
| | Llunio, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Iaith Gwynedd | Hunaniaith | 2017 |
| | Cysylltu gyda chynhyrchwyr cylchgronau lleol i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. | Gwasanaeth AHNE | 2017-18 |

# POBOL A CHYMDEITHAS

| POLISI | GWEITHREDOEDD | PARTNERIAID | AMSERLEN |
|---|---|---|---|
| **CP 1. CYNNAL A GWELLA CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A'U GWNEUD YN FWY ADDAS I'R ANABL AC YN FWY YNNI EFFEITHIOL.** | Gwrthwynebu unrhyw fwriad i gau canolfannau a neuaddau pentref a chefnogi ceisiadau i wneud gwelliannau addas i adeiladau perthnasol. | Gwasanaeth AHNE | Parhaol |
| | Ymchwilio i grantiau posibl ar gyfer cynnal a gwella canolfannau a neuaddau pentref a'u dosbarthu i'r grwpiau a'r unigolion perthnasol. | Gwasanaeth Adfywio Bro Gwynedd.<br>Gwasanaeth AHNE | 2017-20 |
| **CP 2. HYRWYDDO CYMUNEDAU I GYFRANNAU AT OFALU AM Y DREFTADAETH LEOL YN CYNNWYS YMGYMRYD Â GWAITH GWIRFODDOL.** | Asesu'r posibilrwydd o sefydlu grŵp o wirfoddolwyr i gymryd swyddogaeth ehangach o ran gofalu am yr ardal a'r dreftadaeth leol. | Gwasanaeth AHNE | 2017-18 |
| **CP 3. CODI YMWYBYDDIAETH POBOL IFANC AM Y CYFLEON SY'N BODOLI A BUDDION ERAILL BYW YN LLEOL** | Cynnal sesiynau gwybodaeth gyda phobl ifanc lleol mewn lleoliadau addysg a chlybiau ieuenctid a ffermwyr ifanc. | Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Gwasanaeth AHNE<br>Clybiau Ffermwyr Ifanc | 2018-20 |
| **CP 4. ADFER AC AIL-DEFNYDDIO TAI GWAG YN YR ARDAL** | Hyrwyddo a gweithredu cronfeydd grant neu fenthyciadau ar gyfer adfer tai gwag. | Adran Tai Gwynedd<br>Llywodraeth Cymru | Parhaol |
| | Defnyddio pwerau gorfodaeth i adfer tai gwag. | Adran Tai Gwynedd<br>Llywodraeth Cymru | Parhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CP 5. GWNEUD TAI YN FWY YNNI EFFEITHIOL, HYRWYDDO ARBED YNNI A CHREU YNNI ADNEWYDDOL DOMESTIG.** | Cydweithio i ddosbarthu gwybodaeth am gymorthdaliadau perthnasol. | Cyngor Gwynedd<br>Llywodraeth Cymru<br>Ynni Llŷn | Parhaol |
| **CP 6. HYRWYDDO DARPARIAETH O DAI FFORDDIADWY LLE PROFIR FOD GWIR ANGEN LLEOL A SICRHAU FOD CYNLLUNIAU, DYLUNIADAU A DEUNYDDIAU YN GWEDDU I AMGYLCHEDD YR AHNE.** | Cynnal arolygon i asesu os oes gwir angen am dai fforddiadwy | Gwasanaeth Cynllunio | Parhaol |
| | Cynnal arolwg blynyddol o dai ar werth yn ardal yr AHNE a phrisiau tai yn lleol | Gwasanaeth AHNE | 2017-2019 |
| | Sicrhau mai dim ond tai fforddiadwy addas a ganiateir yn yr AHNE | Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd | Parhaol |
| | Paratoi a chyhoeddi canllawiau dylunio ar gyfer tai fforddiadwy yn yr AHNE | Gwasanaeth AHNE | 2018-19 |
| **CP 7. CYNORTHWYO POBOL SY'N MUDO I'R ARDAL I DDYSGU AM HANES A DIWYLLIANT YR ARDAL A DYSGU'R IAITH GYMRAEG.** | Darparu sesiynau gwybodaeth a gwersi dysgu Cymraeg yn lleol a darparu cyfleon i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg neu sefyllfa anffurfiol – mewn sgyrsiau drwy weithgareddau | Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn<br>Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai | Parhaol |

# CYNNYRCH LLEOL A BUSNESAU GWLEDIG

| POLISI | GWEITHREDOEDD | PARTNERIAID | AMSERLEN |
|---|---|---|---|
| **GP 1. HYRWYDDO'R DIWYDIANT FFERMIO TRWY FENTRAU MARCHNATA, MEITHRIN SGILIAU TRADDODIADOL A CHYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDD.** | Cynnal cyfarfodydd gyda'r Undebau Amaethyddol i drafod y cyfleon i greu mwy o amrywiaeth o gynnyrch amaethyddol lleol a chyfleon i werthu yn lleol. | Gwasanaeth AHNE<br>Undebau Amaethyddol | 2018 |
| | Darparu hyfforddiant mewn sgiliau traddodiadol e.e. codi cloddiau a phlygu gwrychoedd. | Gwasanaeth AHNE<br>Grŵp Llandrillo Menai | 2018-20 |
| | Hyrwyddo datblygiad, ac aelodaeth, o gynlluniau amaeth-amgylchedd yn yr AHNE a gerllaw. | Gwasanaeth AHNE | 2017-20 |
| **GP 2. SICRHAU FOD DATBLYGIADAU YNGHLWM Â'R DIWYDIANT AMAETHYDDOL YN CAEL YR EFFAITH LEIAF BOSIB AR DIRLUN AC AMGYLCHEDD YR AHNE.** | Sicrhau fod ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau amaethyddol yn cael eu hystyried yn ofalus o ran effaith ar y tirlun a'r amgylchedd yn unol â pholisïau perthnasol. Cynnwys amodau i reoli materion fel lliwiau, tirluniau ac ati, pan fo angen. | Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd | Parhaol |
| | Paratoi a chyhoeddi llawlyfr o ymarfer da ar ddatblygiadau ynghlwm â'r diwydiant amaethyddol. | Gwasanaeth AHNE | 2018-20 |
| **GP 3. CEFNOGI Y DIWYDIANT PYSGOTA YN LLŶN TRWY HYRWYDDO MENTRAU PROSESU LLEOL A MARCHNATA.** | Comisiynu adroddiad ar y cyfleon o brosesu a marchnata cynnyrch môr lleol. | Gwasanaeth AHNE | 2018-19 |
| | Cynnal digwyddiadau i hyrwyddo cynnyrch môr lleol fel digwyddiadau Blas y Môr. | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Yn flynyddol |
| **GP 4. HYRWYDDO CYNHYRCHION PRIMAIDD LLEOL ERAILL** | Parhau a hyrwyddo Marchnad Cynnych Lleol sydd wedi ei sefydlu yn Sarn Mellteyrn. | Cymydmaen Cyf<br>Gwasanaeth AHNE | Parhaol |
| | Ymchwilio i'r defnydd o frand "AHNE Llŷn" ar gyfer cynnyrch lleol. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| **GP 5. HYRWYDDO GWELLIANT MEWN GWASANAETH BAND LLYDAN A FFONAU SYMUDOL YN YR ARDAL LLE NA** | Adnabod diffygion a phwyso am welliannau sydd yn cymryd ystyriaeth o dirlun arbennig yr AHNE. | Uned Busnes Gwynedd | 2017-18 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **FYDDAI HYNNY YN CAEL EFFAITH ANNERBYNIOL AR DIRLUN YR AHNE.** | | Gwasanaeth AHNE. | |
| **GP 6. HYRWYDDO A CHYNORTHWYO MENTRAU CYDWEITHREDOL FEL DULL O REDEG BUSNESAU A CHYNNAL SWYDDI YN LLEOL.** | Cynnal gweithdy yn Llŷn i godi ymwybyddiaeth am fentrau cydweithredol fel dull o redeg busnesau a'r cymorth sydd ar gael i sefydlu mentrau o'r fath. | Gwasanaeth AHNE Canolfan Cydweithredol Cymru. | 2018 |
| **GP 7. CEFNOGI MENTRAU GWLEDIG NEWYDD A MENTRAU ARALLGYFEIRIO AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR AMGYLCHEDD YR AHNE.** | Paratoi a chyhoeddi canllawiau cyffredinol am fentrau newydd ac arallgyfeirio gan bwysleisio'r angen i gynnal a gwarchod rhinweddau arbennig yr AHNE. | Gwasanaeth AHNE | 2018-19 |
| **GP 8. ANNOG BUSNESAU, YN CYNNWYS RHAI YN Y SECTOR DWRISTIAETH, I FOD YN FWY CYNALIADWY O RAN DEFNYDDIO YNNI AC AILGYLCHU.** | Paratoi, cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i berchnogion busnes lleol i dynnu sylw at gyfleon a fanteision arbed ynni, defnyddio cynnyrch lleol ac ailgylchu a hefyd i annog dulliau cynaliadwy o deithio. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| | Ymchwilio i oblygiadau mabwysiadu Rheolaeth Safon Integredig ar gyfer y diwydiant twristiaeth er gwella adnoddau a chreu budd amgylcheddol, economaidd a chymunedol. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| **GP 9. CEFNOGI DATBLYGIADAU HAMDDEN AWYR AGORED NEWYDD AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR AMGYLCHEDD YR AHNE.** | Paratoi a chyhoeddi canllawiau cyffredinol am fentrau hamdden awyr agored gan bwysleisio'r angen i gynnal a gwarchod rhinweddau arbennig yr AHNE. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| **GP 10. HYRWYDDO MENTRAU TWRISTIAETH PRESENNOL A NEWYDD, YN ENWEDIG RHAI SY'N SEILIEDIG AR HANES A DIWYLLIANT LLEOL, AR YR AMOD NA FYDDENT YN RHOI PWYSEDD ANNERBYNIOL AR AMGYLCHEDD YR AHNE.** | Paratoi a chyhoeddi canllawiau cyffredinol am fentrau twristiaeth newydd gan bwysleisio'r angen i gynnal a gwarchod rhinweddau arbennig yr AHNE. | Gwasanaeth AHNE | 2019 |
| | Comisiynu a chyhoeddi Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer Llŷn a'r AHNE. | Gwasanaeth AHNE | 2019-20 |

## HAWLIAU TRAMWY A MYNEDIAD

| POLISI | GWEITHREDOEDD | PARTNERIAID | AMSERLEN |
|---|---|---|---|
| **MP 1. CYNNAL, GWARCHOD A HYRWYDDO HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS ALLWEDDOL YR ARDAL A SICRHAU EU BOD AR GAEL I'W DEFNYDDIO YN DDI-RWYSTR.** | Gweithredu rhaglen o gynnal, gwella cyflwr ac arwyddo hawliau tramwy cyhoeddus allweddol yr ardal. | Uned Cefn Gwlad Gwynedd<br>Cynghorau Cymuned<br>Fforwm Mynediad | Parhaol |
| | Adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy | Uned Cefn Gwlad Gwynedd | 2018 |
| **MP 2. CYNNAL A CHADW Y LLWYBR ARFORDIR CENEDLAETHOL A CHREU CYSYLLTIADAU NEWYDD YN UNOL Â SAFONAU A CHANLLAWIAU CENEDLAETHOL.** | Gweithredu rhaglen o gynnal cyflwr y llwybr, dodrefn ac arwyddion a chreu cysylltiadau arfordirol newydd os yn bosibl. | Prosiect Llwybr yr Arfordir<br>Llywodraeth Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Parhaol |
| **MP 3. HYRWYDDO'R DEFNYDD O GYLCHDEITHIAU LLEOL SYDD YN GYSYLLTIEDIG GYDA'R LLWYBR ARFORDIR YN LLŶN.** | Cynnwys gwybodaeth am y ddarpariaeth ar gyfer cerdded, beicio, marchogaeth a hamdden yn Llygad Llŷn, ar safle we'r AHNE, safle we Eryri Mynyddoedd a Môr a chyfryngau cymdeithasol. Hyrwyddo taflen "Mwynhau Llŷn". | Gwasanaeth AHNE<br>Gwasanaeth Marchnata a Gofal Cwsmer Gwynedd | Parhaol |
| | Darparu gwybodaeth am gylchdeithiau cerdded yn ardal Llŷn ar wefan yr AHNE. | Gwasanaeth AHNE | 2017 |
| | Cynnal digwyddiadau blynyddol gyda theithiau cerdded, gweithgareddau awyr agored a sesiynau blasu. | Gwasanaeth AHNE<br>Y. Genedlaethol<br>Rhodwyr Llŷn | Parhaol |
| **MP 4. GWELLA DARPARIAETH AR GYFER DEFNYDDWYR HAWLIAU TRAMWY GAN GYNNWYS RHAI'N MARCHOGAETH, BEICWYR A'R ANABL.** | Cynnal astudiaeth i'r adnoddau ar gyfer marchogaeth yn yr ardal a'r modd o wella'r ddarpariaeth. | Y Gymdeithas Ceffylau Prydeinig<br>Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| | Cydweithio ar brosiect i geisio sefydlu llwybr aml-ddefnydd pwrpasol rhwng Pwllheli a Llanbedrog. | Adran Amgylchedd Gwynedd | 2017-19 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Casglu gwybodaeth am rannau o lwybrau cyhoeddus a Llwybr yr Arfordir sydd yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn, pramiau ac ati. Hyrwyddo'r wybodaeth yn Llygad Llŷn, safle we'r AHNE a chyfryngau cymdeithasol. | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| | Sefydlu a chynnal teithiau sy'n cysylltu ar draws y Penrhyn. | Adran Amgylchedd Gwynedd | 2017-19 |
| | Ail sefydlu cylchdaith Ffynnon Saint, Y Rhiw | Gwasanaeth AHNE<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 2018 |
| | Ail-sefydlu llwybr i Gastell Odo, Aberdaron | Gwasanaeth AHNE | 2018 |
| **MP 5. MONITRO PWYSEDD GWEITHGAREDDAU HAMDDEN MEWN RHAI MANNAU PENODOL YN YR AHNE A CHYMRYD CAMAU GWEITHREDU OS BYDD ANGEN.** | Cofnodi lefelau defnydd ar fannau a safleoedd poblogaidd a chymryd camau i reoli defnydd os cyfyd problemau sylweddol. | Prosiect Llwybr yr Arfordir<br>Gwasanaeth Hamdden Gwynedd<br>Gwasanaeth Morwrol Gwynedd<br>Y. Genedlaethol | Parhaol |
| **MP 6. RHEOLI TRAETHAU A GLANFEYDD YR ARDAL YN EFFEITHIOL A'U CYNNAL I SAFON UCHEL.** | Cynnal Gwasanaeth Morwrol effeithiol | Gwasanaeth Morwrol Gwynedd | Parhaol |
| | Hyrwyddo ymddygiad cyfrifol ymysg defnyddwyr a chodi ymwybyddiaeth am fanylion cyswllt i gyflwyno cwynion. | Gwasanaeth Morwrol Gwynedd<br>Gwasanaeth AHNE | Parhaol |
| **MP 7. HYRWYDDO DULLIAU CYNALIADWY O DEITHIO I'R ARDAL AC YN YR ARDAL.** | Cynnwys erthyglau mewn cyhoeddiadau AHNE a'r wasg leol am y gwasanaeth Bws lleol a Rheilffordd y Cambrian. | Gwasanaeth AHNE<br>Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian | 2018 |
| | Rhedeg a hyrwyddo gwasanaeth Bws Arfordir Llŷn. | O Ddrws i Ddrws | 2017-19 |
| **MP 8. CODI YMWYBYDDIAETH A CYNYDDU GWERTHFAWROGIAD O DDYNODIAD YR AHNE.** | Cynhyrchu erthyglau mewn cyhoeddiadau lleol a safle we'r AHNE a'r cyfryngau cymdeithasol. | Gwasanaeth AHNE | Parhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **MP 9. CODI YMWYBYDDIAETH O'R YSTOD EANG O WASANAETHAU AMGYLCHEDDOL A DIWYLLIANNOL A DDARPERIR GAN YR AHNE** | Erthyglau mewn cyhoeddiadau lleol a safle we'r AHNE ac ar gyfryngau cymdeithasol am y buddion mae gwasanaethau'r AHNE yn ei gynnig o ran yr amgylchedd, iechyd a lles. | Gwasanaeth AHNE<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | 2018 |
| | Cynnal sesiynau gwybodaeth gyda grwpiau lleol e.e. ysgolion. | Gwasanaeth AHNE | 2017-19 |